

Mewn ffair hen bethau yng Nghaerfyrddin yr oeddem ni a hithau'n ganol haf. Pobl wedi ymffurfio yn gynffon hir o giw eiddgar wrth aros am fynediad am ddeg o'r gloch y bore tra bod cymaint â chant a phedwar ugain o stondinau wedi eu hulo'n barod i ddarparu gwleddoedd y gellid yn rhesymol dybio a fyddai'n diwallu awch unrhyw gasglwr, beth bynnag ei chwaeth. Yn wir, afrifed y trugareddau nes gyrru dyn bron yn benwan.

Ond roedd ein hamser yn digwydd bod yn brin y diwrnod hwnnw a doedd dwy awr gwa ddim chwarter digon i wneud unrhyw fath o gyfiawnder ag arlwy mor ardderchog amrywiol. Y diwedd fu cael ein gorfodi i lunio rhestr fer, fer o ddim ond dwy eitem yn unig a aethai â'n ffansi cyn gorfod wynebu'r gorchwyl anodd wedyn o ddewis rhyngddynt.

Y Parch John Jones a'i dê parti

Ornament lled fychan ei faintioli oedd y cyntaf - dwy hen wraig wedi gosod bwrdd te am fod y gweinidog wedi galw ar un o'i ymweliadau bugeiliol mae'n debyg a chyda'r capswn ar y gwaelod *Tea with the Rev. John Jones* neu rywbeth i'r perwyl.

'Nawr, allen ni ddim meddwl am yr un Parchedig John Jones ac eithrio'r pregethwr enwog a hyglod o Dalysarn 'stalwm a dyna pam, yn siŵr o fod, yr oedd y darn hwnnw wedi mynnu'n sylw i ddechrau cychwyn. Doedd o hwyrach ddim o wneuthuriad od o gain a chrefftus. Yn wir doedd undim tra anghyffredin yn ei gylch o gwbl, ond eto roedd rhywbeth o'i gwmpas yn denu. Am ei fod yn grair nodweddiadol Gymreig mae'n debyg. Yn sicr dim label *Made in China* na *Hong Kong* ar ei ben ôl beth bynnag! Cofrodd digon rhad yn ei ddydd mae'n ddiamau ond rhywbeth y gallai edmygwyr y pregethwr mawr ei arddel gyda balchder a'i arddangos mewn safle o anrhydedd ar y dresel yn y parlwr gorau gartre'. Dim mymryn mwy o werth na ryw swlltyn neu 'ddeunaw' bryd hynny mae'n wir, ond ei fod erbyn y bore hwnnw yng Nghaerfyrddin wedi cynyddu'n ddifawr yn ei bris, onid ei werth, ac yn cael ei gynnig am ddeugain punt namyn dwy. *Buom yn cloffi'n hir, er mai penderfynu wnaethom ni yn y diwedd nad oedd gyfwerth â hynny beth bynnag. Dim yn ein barn ni o leia'!*

Yn llym ei wedd a'i farf yn laes

Print - yn ei ffrâm wreiddiol wedi ei goreuro - yn perthyn i saithdegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn ôl y dystiolaeth oedd yr ail. Ac ar hwnnw y syrthiodd ein coelbren. Llun mewn du a gwyn (gwaith E.C. Mountford) o ben ac

ysgwyddau gŵr eitha' llym ei wedd, ei farf yn laes a'i wallt, onid yn gwbl wyn, wedi britho peth hyltodd. Yn wir, math o farf oedd yn un mor ardderchog, o ystyried ei maint a'i thrwch, fel y gellid ei galw'n **FAM YR HOLL FARFAU!**

Y gŵr a aned yn Llanuwchllyn

A'i pherchennog? Neb llai na'r gŵr a aned ar 2 Mawrth 1822 yn Nhŷ'r Hen Gapel, Llanuwchllyn, a fu'n Brifathro Coleg Annibynnol Y Bala ac a gafodd yrfa ddigon helbulus ond a chwaraeodd ran hynod flaenllaw yn y mudiad i sefydlu gwladfa ym Mhatagonia ac a oedd yr un pryd yn dad cenedlaetholdeb Cymreig. Bonws ychwanegol wedyn o'm safbwynt i fel casglwr y cyfryw bethau oedd fod yr union ŵr hwnnw wedi torri ei lofnod ar y gwaelod -

*Yr eiddoch yn wladgar
Michael D. Jones.*

Ond yr oedd un peth yn peri dryswch. Doeddwn i ddim y bore hwnnw - a dydw i ddim eto chwaith - yn ddigon o arbenigwr i allu penderfynu ai wedi ei atgynhyrchu fel rhan o'r print yr oedd y llofnod, ynteu a ydoedd efallai yn gyfarchiad a ychwanegwyd ar gais rhyw edmygydd rywbryd yn ddiweddarach a chyn gosod y cyfan, wedyn, oddi mewn i derfynau'r ffrâm?

Llofnod dilys a gwreiddiol

Roedd y gwerthwr yng Nghaerfyrddin yn gwbl bendant o'r farn bod y llofnod yn un dilys a gwreiddiol a bod hynny yn ychwanegu at werth y print. Er y basa fo mae'n debyg, yn dweud hynny canys roedd arno eisiau sêl i'w gadw yn ei waith, heb ofni dim am y 'gosh a ddêl' petai o, dyweder, wedi fy nghamarwain! Digon iddo ef oedd y wobr o glensio bargaen.

Ond mae angen mwy o sicrwydd ar ddyn ac y mae hynny yn fy arwain i holi tybed a oes rywun o blith darllenwyr **Y Casglwr** yn gyfarwydd â'r llun o dan sylw ac a allai roi goleuni ar y mater. Mae'n eitha' tebyg fod niferoedd o gopiau wedi bod mewn cylchrediad yn eu dydd ac wedi bod yn hongian ar barwydydd parlyrau ledled yr henwlad ac o bosibl ym Mhatagonia'n ogystal.

O wybod mai ychwanegiad diweddarach yn llaw Michael D. Jones ei hun yw'r cyfarchiad a'r llofnod, a'u bod yn ddilys, yn hytrach na llungopi, yna, ni fyddai unrhyw sail dros i minnau wedyn amau gonestrwydd a geirwiredd y gwerthwr yng Nghaerfyrddin.!! Yr un pryd, ac yn bwysicach fyth, byddai'r pryniant gryn dipyn mwy o werth.

Ond yn y cyfamser, mae'n rhaid cydnabod, yn niffyg gweledigaeth amgenach, fod yr amheuan yn aros.



Michael D. Jones a'i lofnod

Gofynnir eto, a oes a'm goleuo?

Ôl Nodyn

Roeddwn wedi hen anfon y truth hwn i'r Golygydd pan ddigwyddais, beth amser yn ddiweddarach, wylio'r rhaglen ddifyr a gyflwynwyd ar S4C yn dilyn hynt a helynt Cwmni Drama Llwyndyrus ar eu taith i Batagonia.

Cwmni Drama Llwyndyrus yn perfformio ym Mhatagonia

Roedd Gwilym Griffith, y cynhyrchydd, (enillydd tra haeddiannol Medal Goffa T. H. Parry Williams Eisteddfod Genedlaethol Eryri wrth reswm) i'w weld yn rhoi ei sylwadau yn dilyn perfformiad a roddwyd mewn canolfan yn y Wladfa o 'Y Dalar Deg' gan W. S. Jones, pan sylwais, yn y cefndir tros ei ysgwydd, yn hongian ar un o'r parwydydd, ar yr union lun y cyfeiriwyd ato uchod.

Gwaetha'r modd, doedd hi ddim ond siot gyflym, rhy gyflym i ddyn allu canfod a oedd yr eiddoch yn wlatgar' ac ati, wedi ei dorri ar ei waelod. Doeddwn i felly ronyn nes i'r lan.

Eithr yn Eisteddfod Y Faenol digwyddais daro ar Eryll Nest Roberts, a fu gynt yn swyddog golygyddol Gwasg Carreg Gwalch, ond sydd ar hyn o bryd yn bwrw tymor yn gweithio ymhlith Cymry'r Wladfa. Fe soniais am y peth wrthi. Addawodd hithau ymchwilio ymhellach i'r mater ar fy rhan. Hyd yma ni chaeu ateb. Does gen i ond gobeithio, os digwydd iddi ddarllen y rhifyn hwn o'r Casglwr rywle dan Groes y De, y bydd yr ychydig eiriau hyn yn pigo ei chydwybod, yn procio ei chof, yn ei hatgoffa o'r addewid a roed!

Ond yn absenoldeb hynny, hwyrach fod 'na rywun rywle ...